



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR 13 GORFFENNAF 2022

Adroddiad gan: Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

Testun: Adroddiad Blynyddol GwE 2021-22

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2021-22 i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Fel y nodir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

2.2 Mae Adroddiad Blynyddol GwE eleni yn amlinellu sut mae staff GwE wedi ail-bwrpasu eu gwaith yn briodol dros y ddwy flynedd ddiwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Ynghlwm mae'r adroddiad blynyddol sy'n rhoi trosolwg o'r meysydd canlynol:

- Cefndir a chyd-destun

- Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod y Pandemig: gwneud gwahaniaeth
- Gwerthuso effaith ein gwaith
- Cefnogi ysgolion gyda'u paratoadau at y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru
- Cefnogi a gwella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth
- Y Gymraeg
- Llesiant
- Ymgysylltu â Chymheiriaid
- Materion busnes
- Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2022-2023

3.2 Yn yr adroddiad, disgrifir sut mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau tuag at y Daith Ddiwygio a Cwricwlwm i Gymru, ac wrth wella ansawdd yr addysgu ac arweinyddiaeth.

3.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd GwE ac yn adnabod y blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2022-2023. Mae ein hamcanion strategol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol, ac adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu trwy broses hunan arfarnu'r gwasanaeth. Cytunwyd ar y blaenoriaethau trosfwaol ar gyfer 2022-2023 gyda'r Cyd-bwyllgor ar 16 Chwefror 2022.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-2022.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau ar y cynllun y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â'r Byrddau Ansawdd Sirol, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2021-22 a dogfennau ategol:

- ATODIAD 1: Rhaglen waith GwE a chefnogaeth i ysgolion yn ystod Pandemig COVID
- ATODIAD 2: Effaith y ffrydiau gwaith
- ATODIAD 3: Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio - Tymor yr Hydref 2021
- ATODIAD 4: Strategaeth Rhanbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr
- ATODIAD 5: Data Rhanbarthol Cynllun Busnes
- ATODIAD 6: Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Cadarnhaf fod cyfrifoldeb ar Reolwr Gyfarwyddwr GwE, yn unol â'r cytundeb rhwng-awdurdod, i gyflwyno adroddiad ar berfformiad y Gwasanaeth i'r Cyd- Bwyllgor a'r Cynghorau yn flynyddol.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o waith GwE yn ystod 2021/22. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.